# Bwletin GwE

## CYDWEITHIO · DYSGU · LLWYDDO

‼ Rhannwch ein Bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio. ‼

## Pontio ×2 GwE

17/03/2023 | 8:45-13:30 | Venue Cymru

Gweler yma wybodaeth ynghylch Gweithdy Pontio GwE.

I gofrestru, cwblhewch y FFURFLEN HON erbyn 10/03/2023.



#PontioGwE2023

## CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

### Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE

Cliciwch yma am y rhestr llawn.
Cofrestrwch drwy G6 os gwelwch yn dda.



### Cynnig Dysgu Proffesiynol – Dysgu Digidol

## RHAGLENNI CENEDLAETHOL

### Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol (RhDPP)

Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth Trawsranbarthol wedi penderfynu darparu'r **Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol** i garfan newydd y flwyddyn academaidd hon. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau Adolygiad 360 a mynychu dau gwrs preswyl deuddydd, yn ystod tymor yr haf 2023.

Ceir rhagor o fanylion yma.

I fynegi diddordeb ac/neu i drafod ymhellach, anfonwch e-bost at Bryn Jones RhDPP@gwegogledd.cymru erbyn **07/03/2023** os gwelwch yn dda.

## Dysgu Proffesiynol ANG Rhanbarth GwE (Tymor 2 a 3)

NODWCH Y NEWID I'R DYDDIADAU A'R LLEOLIADAU

Darperir Rhaglen Ranbarthol ANG GwE yn ystod y ddau dymor nesaf, gyda'r sesiynau yn cychwyn ym mis **Mawrth 2023.** Manylion llawn ar gael **yma**. ***COFRESTRWCH AR G6.***

Bydd angen i chi gofrestru ar blatfform G6 GwE i gael mynediad at yr hyfforddiant rhanbarthol [**NID y gofod Teams Cenedlaethol].** Gweler y manylion yma.

## Diwrnod Datblygu CALU Cenedlaethol



**09/03/2023** **09:15-15:15** **Venue Cymru, Llandudno**

Cynhelir Diwrnod Datblygu Cenedlaethol ar 09/03/23 i gymorthyddion addysgu sydd â statws CALU. Dyma gyfle i weld esiamplau o arfer effeithiol mewn ysgolion ar draws rhanbarth GwE.


**Siaradwr gwadd:** Nina Jackson, Ymgynghorydd Addysg Cenedlaethol.

**COFRESTRWCH DRWY G6**

## Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu

'**Cymorthyddion wrth eu Gwaith'** - rhaglen hyfforddiant genedlaethol i gymorthyddion addysgu sydd yn eu swydd ers dros ddwy flynedd. *Ad-delir costau*.

Am fwy o wybodaeth, cliciwch yma.




**COFRESTRWCH DRWY G6**

## Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, **cliciwch yma**.

## Dosbarth *Google* i Gynorthwywyr Addysgu

Banc o adnoddau ar gyfer datblygiad proffesiynol cynorthwywyr addysgu, yn cynnwys: Defnyddio eich Pasbort Dysgu Proffesiynol; Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu; Statws CALU; Cwricwlwm i Gymru; Adnoddau Hwb; Dysgu Cymraeg ayb.

Defnyddiwch eich e-bost Hwb i ymuno, gyda'r cod hwn: **ghlyepw**.

Dyma ddolen i gyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad at y dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb: https://cutt.ly/Cyfarwyddiadau-Google-Classroom-i-Gymorthyddion

Cliciwch yma am gyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom, ac yma am droslais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom: https://cutt.ly/Troslais-Google-Classroom

# NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## Cynllun 'Cau'r Bwlch Darllen'

Cyfle i Gydlynwyr Llythrennedd ac arweinwyr canol ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y rhanbarth ymuno â chynllun sy'n targedu uwch sgiliau darllen yn y Gymraeg trwy roi ymyraethau penodol llyfr Alex Quigley, 'Closing the Reading Gap', ar waith mewn gwersi Meysydd Dysgu a Phrofiad ar draws y cwricwlwm. Cofrestrwch trwy lenwi'r ffurflen hon erbyn 10/03/23, neu os hoffech chi wybod mwy am y cynllun, cysylltwch â ni. Rhagor o fanylion yma.

## Prosiect 'Llythrennedd yn y Gweithle' 2023

Un o nodau 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr' (Llywodraeth Cymru) yw 'cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector', a nod y prosiect hwn yw cryfhau'r cysylltiadau presennol sydd gan ysgolion Uwchradd â busnesau lleol yn nalgylch yr ysgol gan roi sylw arbennig i'w defnydd o'r Gymraeg a sut y maent yn hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil cyflogadwyedd.

**I wneud cais i ymuno â'r prosiect hwn, cwblhewch y ffurflen hon erbyn 10/03/23,** neu os hoffech wybod mwy am sut gall eich ysgol chi elwa ar fod yn rhan o'r prosiect uchod, cysylltwch â ni.

Manylion llawn yma.

## Hyfforddiant Sylfaenol ar Therapi Gwneud Llun a Siarad

**09/03/23** **DIGWYDDIAD AR-LEIN**

Dull diogel, hawdd i'w ddysgu o weithio gyda phlant, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc, i helpu gydag anawsterau emosiynol sylfaenol a allai fod yn effeithio ar eu dysgu a'u hymddygiad. Cynhelir y digwyddiad drwy gyfrwng y Saesneg. **COFRESTRWCH AR G6**

## Dylanwad Chwarae Cadarnhaol

06/03/23 Plas Menai, Caernarfon 13/03/23 Gwesty'r Beaufort, Yr Wyddgrug

Hyfforddiant diwrnod llawn i staff addysg o bob lleoliad sy'n gweithio gyda phob oed a gallu.

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar sefydlu grŵp Therapi sy'n Seiliedig ar LEGO® ar gyfer disgyblion sydd â phob mathau o anghenion cymdeithasol a chyfathrebu. Trafodir elfennau eraill o ddefnyddio 'chwarae' i gefnogi disgyblion trwy gydol y dydd, gan gynnwys defnyddio gwaith tywod, defnyddio pypedau, gwneud llun a pheintio a gwneud modelau. Cynhelir y digwyddiad trwy gyfrwng y Saesneg. **COFRESTRWCH AR G6.**

## Cynhadledd Arweinyddiaeth Ôl-16

03/03/23 Canolfan Fusnes Conwy ➤ Gweler y manylion yn y rhaglen.

## Cyhoeddi Gwaith Newydd gydag Ysgolion GwE

***The UK stand together trial: protocol ar gyfer hap-dreial clwstwr aml-ganolfan, wedi'i reoli, i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd KiVa o ran lleihau bwlio mewn ysgolion cynradd***

Mae ysgolion GwE wedi bod yn gweithio gydag ymchwilwyr o 4 prifysgol yn y DU i werthuso effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd rhaglen gwrth-fwlio Kiva o ran lleihau nifer yr achosion o fwlio sy'n cael eu hadrodd gan blant mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn rhan o waith parhaus GwE gyda'n partneriaid ymchwil yn CIEREI, Prifysgol Bangor i hyrwyddo defnyddio dulliau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion. Cewch ragor o wybodaeth am y treial yma.

## Asesiadau Personol Llythrennedd a Rhifedd

**Negeseuon Rhanbarthol Gwanwyn 2023**

**Cliciwch yma** am y negeseuon rhanbarthol diweddaraf am asesiadau personol Gwanwyn 2023.

## Prosiectau Darllen GwE

Bu GwE yn gweithio gydag ymchwilwyr y Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor i roi cymorth gyda dysgu darllen effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym wedi crynhoi strwythur y cymorth hwn mewn **trosolwg polisi i ysgolion** ac mae'n bleser gennym wahodd ysgolion i gael hyfforddiant ar dri o'r prosiectau hyn, fel a ganlyn:

**Gwahoddiad i ysgolion gael mynediad, yn rhad ac am ddim, at hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer Rhaglen Rhannu Llyfr - Llyfrau Gyda'n Gilydd**
**Rhagor o fanylion**.

**Hyfforddiant am ddim i ysgolion gyflwyno rhaglen llythrennedd CA2 i ddysgwyr sy'n cael trafferth wrth ddarllen.**
**Rhagor o wybodaeth.**

**Eisiau gwella sgiliau rhuglder darllen dysgwyr yn y Saesneg ac/neu'r Gymraeg?**
**Cliciwch yma am fwy o fanylion.**

## Adnoddau i Rieni a Gofalwyr

### Helpu Eich Plentyn i Ddysgu – CYNRADD / BLYNYDDOEDD 7 AC 8




Cwrs cynhwysfawr i rieni plant 5-12 oed, sy'n rhoi popeth sydd ei angen arnoch i gefnogi eich plentyn i ddysgu a'i helpu i dyfu a datblygu.
**ADNODDAU:** CYMRAEG | ENGLISH

### Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu – BLYNYDDOEDD 9, 10 AC 11




Cwrs cynhwysfawr i rieni plant rhwng 13 ac 16 oed, sy'n rhoi popeth sydd ei angen arnynt i gefnogi eu plentyn i ddysgu a'i helpu i adolygu a pharatoi at arholiadau.
**ADNODDAU:** CYMRAEG | ENGLISH

**HOLWCH YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT EICH YSGOL AM GÔD TALEB.**

## Lles

### *Education Support*

Ydych chi eisiau teimlo eich bod wedi'ch adfywio, yn llawn egni ac am ddatblygu yn eich rôl?
Cliciwch yma i weld y gefnogaeth les a ariennir yn llawn ar gyfer arweinwyr ysgol, a ddarperir gan *Education Support.*

### Diploma mewn Ysgolion a Chymunedau sy'n Wybodus am Drawma ac Iechyd Meddwl

**STATWS YMARFERYDD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **GwE 13:** | Ebrill 2023 | I'w gadarnhau | Manylion Pellach |
| **GwE 14:** | Mehefin 2023 | I'w gadarnhau | Manylion Pellach |

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â lindsay@traumainformedschools.co.uk / alys@traumainformedschools.co.uk



# Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

**Canolfan Cefnogaeth GwE: Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau** - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe

**Newyddlenni**
**Cymraeg: Cynradd | Uwchradd    English: Primary | Secondary**

## CYFARFODYDD RHWYDWAITH IEITHOEDD RHYNGWLADOL – SECTOR CYNRADD

Cyfle i rannu syniadau, cael ychydig o help llaw, ateb i gwestiynau, cyngor, hyfforddiant, edrych ar yr adnoddau sydd yn bosibl eu defnyddio oddi ar Power Language. **COFRESTRWCH AR G6**.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwynedd / Ynys Môn | 03/03/2023 | 9:00-12:00 | Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor, LL57 2TR |
| Conwy / Sir Ddinbych | **Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, mae'r cyfarfod wedi'i ohirio.** | | |
| Sir y Fflint / Wrecsam | 08/03/2023 | 13:00-15:30 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug, CH7 1XP |

## DYSGU PROFFESIYNOL: IEITHOEDD RHYNGWLADOL YN Y SECTOR CYNRADD

**21/03/2023**  **9:00-15:30**  **Venue Cymru, Llandudno**  **Richard Tallaron, Power Language**

Wedi'i gynllunio ar y cyd rhwng ein tîm Dyfodol Byd-eang a'n partneriaid yn Power Language, y bwriad yw rhoi syniadau ymarferol i athrawon ysgol gynradd allu gwreiddio ieithoedd yn effeithiol yn eu cwricwlwm trwy Hanes, Llythrennedd, Gwyddoniaeth, Adrodd straeon, y Celfyddydau Mynegiannol, Rhifedd a DaTh. **Rhagor o fanylion a chofrestru yma, cyn 10/03/23.**

## RHWYDWAITH YMCHWIL AMLIEITHRWYDD PRIFYSGOL CAERDYDD: SECTOR CYNRADD AC UWCHRADD

**18/04/2023**  **15:30-16:30**  **Digwyddiad Ar-lein - Zoom**

*'An Integrated Plurilingual Approach to Language Learning (IPA): Research-based Classroom Practices' Dr Caterina Sugrañes Ernest (FPCEE-Blanquerna, University Ramon Llull), Dr Maria González-Davies (FPCEE-Blanquerna, University Ramon Llull).*
**COFRESTRWCH YMA**.

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

## Cyfle ym maes Cymell a Mentora

Mae'r 4 consortiwm addysg rhanbarthol wedi bod yn datblygu diwylliant o Gymell a Mentora trwy raglen hyfforddiant genedlaethol ers 2 flynedd bellach.
Mae'r rhaglen datblygu proffesiynol rithwir hon yn cynnwys 6 sesiwn 3½-awr dros gyfnod o 6 wythnos.
Trefnir carfan newydd **cyfrwng Cymraeg** ar ôl y Pasg, i gychwyn ar **27/04/2023** (yb).
Yn ogystal, mae yna rai llefydd yn dal ar gael yn y garfan cyfrwng Saesneg, i gychwyn ar 19/04/2023 (yb neu yp).
Os ydych chi am fynegi diddordeb yn y cyfle hwn – a ariennir yn llawn – cysylltwch â anwengwilym@gwegogledd.cymru os gwelwch yn dda.

## Rhaglen Cefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig Trwy Ddysgu ac Addysgu Effeithiol

Yn dilyn lansiad y Rhaglen hon gan Mike Gershon ar 06/02/23, gellir lawrlwytho copi o'r cyflwyniad yma.
Dyma'r ddolen i'r wefan: https://supportingvulnerablelearners.cymru/cy/mewngofnodi/
Cewch fynediad at yr holl adnoddau ar y wefan trwy gofrestru gan ddefnyddio eich manylion mewngofnodi Hwb.

## Rhaglen Bartneriaeth Lles: Cymorth Lles

Cliciwch y ddolen hon i weld taflen wybodaeth ddiweddaraf y Consortia ar gefnogaeth ar gyfer lles.

# GWYBODAETH GAN LYWODRAETH CYMRU

## Diweddaru'r Strategaeth Tlodi Plant: Digwyddiad Ymgysylltu

Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Rydym yn diweddaru adroddiad 2015: Strategaeth Tlodi Plant Cymru: adroddiad | LLYW.CYMRU.

Gofynnwn ichi fod yn rhan o sgwrs bwysig am flaenoriaethau cenedlaethol i fynd i'r afael â thlodi a sut y gellir cyflawni'r blaenoriaethau hyn mewn partneriaeth â llywodraeth leol, y sector cyhoeddus a phartneriaid ehangach.

Dyma gam cyntaf y gwaith ymgysylltu, lle'r ydym yn gofyn i weithwyr proffesiynol a sefydliadau ddarparu eu safbwyntiau a'u harbenigedd.

Datganiad Llafar: Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Tlodi Plant 2022 Llywodraeth Cymru (13 Rhagfyr 2022) | LLYW.CYMRU
TrechuTlodiAChefnogiTeuluoedd@llyw.cymru

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Gweminarau Pencampwyr *Alps*

**GWEMINAR I GEFNOGI MYFYRWYR BLWYDDYN 12**
Yn ystod y weminar hon a gynhelir ar 09/03/23 am 15:30, trafodir blaenoriaethau arweinyddiaeth ôl-16, ynghyd â strategaethau effeithiol i gefnogi myfyrwyr Bl. 12 yn y cyfnod cyn yr arholiadau. Bydd sesiwn hefyd ar ddefnyddio Alps Connect yn effeithiol i dracio cynnydd myfyrwyr ac adnabod blaenoriaethau. Cofrestrwch yma: https://www.bigmarker.com/alps-education/Supporting-AS-students-to-make-outstanding-progress

**GWEMINARAU *'MAXIMISING ACHIEVEMENT'* I YSGOLION CA5 YNG NGHYMRU**
Mae'r gweminarau uchod bellach i'w cael yn adran 'ar alw' eu gwefan. Gweler y ddolen isod:
https://www.bigmarker.com/alps-education/KS5-Wales-Maximising-Achievement-with-Yr-13-in-final-11-weeks

**BLOG NEWYDD AR GYFER ALPS AR DDATBLYGU RHAGLEN DIWTORIAL ÔL-16 EFFEITHIOL**
Gweler y ddolen isod:
https://alps.education/opinion/developing-an-effective-post-16-tutorial-programme/

## Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus – Gwahoddiad i Bobl Ifanc mewn Ysgolion

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwahodd pobl ifanc 16 oed neu hŷn ar draws Cymru i ymuno â phanel o breswylwyr o'r enw 'Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus' i lunio polisïau iechyd cyhoeddus yng Nghymru. **Cliciwch yma** am ragor o wybodaeth.

.

## Gweithdy Dysgu Trwy Brofiad i Ddarpar Arweinwyr

23/03/2023 Prifysgol Bangor **RHAGOR O FANYLION A CHOFRESTRU**

Dymuna Prifysgol Bangor wahodd myfyrwyr Bl. 9-11 i gymryd rhan mewn diwrnod o ddysgu egnïol i gael profiad o fod yn arweinydd a rheoli tîm. Gall pob ysgol ddod ag uchafswm o 7 disgybl i bob gweithdy.

## Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Cynradd

Mae pob ysgol gynradd ledled Cymru wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yn Arolwg Iechyd a Lles SHRN Cynradd. Mae'r arolwg hwn ar agor tan 31 Mawrth, a'r **dyddiad cau yw 15 Mawrth i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan**.

Mae'r arolwg yn casglu data ar ddemograffeg a chanlyniadau myfyrwyr mewn pynciau fel iechyd meddwl a phontio ysgol. Gallwch weld cwestiynau'r arolwg, sy'n wahanol ar gyfer pob grŵp blwyddyn, trwy glicio ar y ddolen hon. Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn yr arolwg yn derbyn Adroddiad Iechyd a Lles Myfyrwyr unigol yn seiliedig ar ymatebion dysgwyr, a gallwch weld enghraifft ohono yma. Mae'r adroddiadau'n cynnwys testun cefnogol gyda dulliau ysgol gyfan a awgrymir, canfyddiadau ymchwil diweddar a chysylltiadau ag asiantaethau cenedlaethol cefnogol.

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manteision cymryd rhan, gallwch weld recordiad o weminar wybodaeth yma (gyda sleidiau dwyieithog ar gael yma) neu gallwch gysylltu â'r tîm ymchwil ar primarySHRN@caerdydd.ac.uk. Os yw'ch ysgol eisoes wedi cofrestru neu wedi ymateb i'r e-bost gwahoddiad, nid oes angen unrhyw gamau pellach.

## Rhwydwaith Cenedlaethol Celfyddydau ac Addysg

Sefydliad sydd â'r nod o ddarparu hyfforddiant yn y celfyddydau mynegiannol i ymarferwyr addysg yw'r Rhwydwaith Cenedlaethol Celfyddydau ac Addysg, a gefnogir gan CLlLC a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Mae gan y Rhwydwaith fynediad at amrywiaeth o artistiaid medrus a phrofiadol ledled Cymru sydd â hanes da o ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel.

Rydym yn cydnabod bod ymarferwyr addysg yn dymuno rhoi'r celfyddydau mynegiannol ar waith yn effeithiol o fewn y cwricwlwm newydd, ond weithiau gallant fod yn brin o hyder mewn meysydd penodol. Felly, rydym yn llunio rhaglen o hyfforddiant ar gyfer 2023 er mwyn ateb y galw hwn.
**Manylion llawn ar gael yma**. Cysylltwch â enlli@artsed.wales os oes gennych unrhyw gwestiynau.

## Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: Porth Addysg

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi lansio porth ar-lein newydd i arddangos yr holl opsiynau er mwyn helpu ymarferwyr i ddod o hyd i gwrs addas. Bydd y porth yn cael ei gadw'n gyfredol gyda'r holl gyrsiau ac adnoddau diweddaraf, yn cynnwys dewis o gyrsiau hunan-astudio ar-lein; cyrsiau cymunedol mewn dosbarthiadau rhithwir ac wyneb-yn-wyneb; a chyrsiau dwys, gyda chyfleoedd ar gael ar bob lefel ddysgu. Mae'r porth hefyd yn cynnig adnodd digidol newydd y 'Dewin Dysgu' i ddarpar-ddysgwyr i'w helpu i ddod o hyd i gwrs ar lefel addas.

Mae'r cyfleoedd Dysgu Cymraeg hyn yn addas ar gyfer:
- Athrawon cymwys sydd mewn swydd, neu'n chwilio am swydd;
- Athrawon sydd newydd gymhwyso;
- Athrawon/cynorthwywyr cyflenwi;
- Unigolion sy'n hyfforddi ar hyn o bryd i fod yn athrawon cymwys;
- Cymorthyddion Dysgu sydd mewn cyflogaeth;
- Arweinyddion mewn addysg; ac
- Athrawon ymgynghorol.




**Cliciwch yma i ymweld â'r porth**.

## MA Addysg (Cymru)

Mae gan Brifysgol Bangor gymhwyster MA mewn Addysg **wedi'i ariannu'n llawn** i athrawon fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.
Mae lleoedd a ariennir yn brin, ac mae meini prawf yn berthnasol. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion yma.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Dr Kaydee Owen (E-bost: kaydee.owen@bangor.ac.uk).